

Ystyriaethau i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) sy'n gweinyddu etholiad Senedd y DU mewn etholaethau traws-ffiniol

1.1 Mae gweinyddu etholiad Senedd y DU mewn etholaeth draws-ffiniol yn gosod rhai heriau ymarferol penodol, gan ychwanegu haen o gymhlethdod at gyflawni swyddogaethau'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), a sut y caiff prosesau eu gweithredu. I'r Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) hynny sydd gydag etholaeth draws-ffiniol ac sydd hefyd yn wynebu etholiadau cyfunol, ceir heriau pellach eto.

1.2 Rydym wedi derbyn ceisiadau penodol i ddarparu rhagor o ganllawiau i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol) sy'n gyfrifol am etholaeth sy'n croesi ffiniau awdurdodau lleol. Fel Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), bydd eich cynlluniau ar gyfer gweinyddu'r etholiad eisoes wedi datblygu'n dda, ond gellir defnyddio'r ddogfen hon fel gwiriad yn erbyn eich cynlluniau presennol, ac i helpu hysbysu trafodaethau sydd eisoes yn cael eu cynnal gyda staff o'r awdurdod/awdurdodau lleol eraill yn eich etholaeth. Ar ddiwedd y ddogfen hon, ceir rhestr wirio sy'n nodi'r ystyriaethau allweddol y dylech chi a'ch tîm prosiect fod wedi gweithio drwyddynt wrth wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu'r etholiad(au) yn yr etholaeth draws-ffiniol.

Bydd angen i chi adolygu eich cynlluniau i sicrhau eu bod yn amlinellu eich prosesau a'r camau diogelu sydd yn eu lle, a'u bod yn adlewyrchu unrhyw ystyriaethau trawsffiniol, gan y byddant yn sail gadarn i chi fodloni eich rhwymedigaethau diogelu data.

Lle bo gofyn trosglwyddo data, bydd angen i chi sicrhau bod cytundeb yn ei le rhyngoch chi a'r person sy'n derbyn y data er mwyn trosglwyddo data'n ddiogel a'i ddinistrio. Mae ein [hadnodd](#) ar Reoliadau Diogelu Data Cyffredinol yr UE a Deddf Diogelu Data 2018 yn cynnwys cyngor manylach ar storio data personol yn ddiogel a chynnal a chadw eich polisi cadw dogfennau, gan gynnwys beth ddylai gynnwys.

Y Tîm Prosiect

1.3 Os ydych yn Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn gweinyddu etholiad mewn etholaeth draws-ffiniol, bydd angen i chi sicrhau bod yr holl etholwyr yn yr etholaeth yn derbyn yr un lefel o wasanaeth, ni waeth pa ardal awdurdod lleol y maent yn byw ynddi. Felly, bydd angen i chi weithio'n agos â'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol perthnasol, Swyddogion Canlyniadau llywodraeth leol a'r staff etholiadau perthnasol yn yr awdurdod/awdurdodau lleol eraill er mwyn sicrhau y cyflenwir yr etholiad(au) yn effeithiol. Fel y nodir ym [Mhennod 2, Rhan B: Cynllunio a threfnu](#) ein canllawiau cyffredinol i Swyddogion Canlyniadau (Gweithredol), dylech eisoes fod wedi sefydlu tîm prosiect i'ch cefnogi wrth i chi gyflawni eich swyddogaethau a chyflenwi etholiad a gynhelir yn dda.

1.4 Bydd angen i'r tîm prosiect gytuno ar sut y gall yr etholiad gael ei weinyddu orau yn ymarferol ar draws y cyfan o'r etholaeth. Dylai eich tîm prosiect gynnwys y staff perthnasol o'r awdurdodau lleol sy'n cael eu cynnwys o fewn ffin yr etholaeth, a dylai gyfarfod yn rheolaidd.

Rheolaeth ymarferol swyddogaethau Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) penodol a llunio cytundebau lefel gwasanaeth

1.5 Fel Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), bydd angen i chi wneud penderfyniad ynghylch p'un a fyddwch yn gweinyddu'r etholiad(au) yn yr ardaloedd hynny sydd y tu allan i'ch ardal awdurdod lleol, neu a fyddwch yn dibynnu ar y Swyddog(ion) Canlyniadau llywodraeth leol perthnasol neu uwch swyddogion eraill yr awdurdod/awdurdodau lleol eraill i wneud hyn ar eich rhan.

1.6 Bydd angen i chi benderfynu ble y byddwch yn dibynnu ar yr awdurdod/awdurdodau lleol eraill i reoli'n ymarferol agweddau penodol ar yr etholiad yn eu hardal(oedd). Mewn ymgynghoriad â'r tîm prosiect, dylech hefyd gytuno p'un a yw cyflawni unrhyw rai o'ch swyddogaethau i gael eu dirprwyo'n ffurfiol ac, os felly, pa rai.

1.7 Dylech gofnodi'r penderfyniadau a wnewch, gan roi manylion yn glŷn â phwy fydd yn gyfrifol am ddarparu'n ymarferol yr agweddau hynny o'r etholiad(au) sy'n digwydd yn eich ardal chi. Mae'n bwysig bod yn glir pwy sy'n gwneud beth mewn perthynas â phob un o'r etholiadau sy'n digwydd yn yr etholaeth. Bydd dogfennu'r penderfyniadau a threfniadau yn glir ymlaen llaw yn helpu i osgoi unrhyw gamddealltwriaeth yn y dyfodol.

1.8 Dylech sicrhau bod eich dogfennau cynllunio prosiect yn dangos yn benodol pwy fydd yn gyfrifol am beth yn ymarferol, a bod eich cofrestr risg yn adlewyrchu'r holl risgiau a mesurau lliniaru perthnasol. Os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes, dylech hefyd lunio cytundeb lefel gwasanaeth (CLG), a ddylai gael ei gytuno a'i lofnodi gan bob parti perthnasol. Gallwch ddefnyddio'r

prif benawdau yn y ddogfen hon fel canllaw ar gyfer y mathau o feysydd y dylai'r CLG eu cwmpasu fel isafswm. Dylech hefyd ystyried cynnwys atodlen neu amserlen yn manylu ar bryd y caiff prosesau a thasgau penodol eu cynnal.

Er y gallwch benodi dirprwyon i gyflawni rhai neu'r cyfan o'ch swyddogaethau ac y gall Swyddog(ion) Canlyniadau llywodraeth leol yn yr awdurdod/ awdurdodau lleol eraill a'u staff reoli'n ymarferol rai agweddau ar yr etholiad, erys y cyfrifoldeb cyfreithiol am etholiad Senedd y DU (ac, os oes gennych etholiadau eraill yn digwydd yn eich etholaeth, y cyfrifoldeb cyfreithiol am gyflenwi'r swyddogaethau cyfunol) gyda chi fel y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol). P'un a ydych wedi dirprwyo'n ffurfiol rywfaint neu'r cyfan o'ch swyddogaethau neu'n dibynnu ar gefnogaeth ymarferol o'r tu allan i'ch awdurdod i'ch helpu i gyflawni eich swyddogaethau, dylai fod gennych systemau yn eu lle i sicrhau y gallwch dderbyn y sicrwydd angenrheidiol bod y gwaith yn cael ei wneud yn effeithiol ac yn gyson, ac i roi rhybudd cynnar i chi os nad yw.

Cyfathrebu â'r cyfryngau ac ymwybyddiaeth y cyhoedd

1.9 Mae'n bwysig bod y wybodaeth am yr etholiad a gyflëir i'r pleidleiswyr gan y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yn gyson ar draws yr etholaeth.

1.10 Bydd angen i'ch tîm prosiect gyuno ar y strategaeth ymwybyddiaeth y cyhoedd sydd i'w gweithredu ar draws yr etholaeth. Bydd angen cyfathrebu negeseuon allweddol i bleidleiswyr yn ofalus, gan gynnwys cyhoeddi gwybodaeth ar wefannau awdurdodau lleol a chyswllt â'r cyfryngau. Dylai'r tîm prosiect benderfynu sut y bydd y trefniadau yn cael eu rhoi yn eu lle gyda thimau cyfathrebu'r awdurdod lleol. Bydd hyn yn cynnwys pwy fydd yn gyfrifol am gysylltu â'r cyfryngau a'r wasg yn y cyfnod hyd at yr etholiad, ar y diwrnod pleidleisio, ac yn ystod y cyfrif.

Staffio

1.11 Fel Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), dylech ystyried yr effaith y bydd gweinyddu etholiad mewn etholaeth draws-ffiniol yn ei chael ar ofynion staffio. Er enghraifft, os byddwch yn penderfynu rheoli'n ymarferol yr etholiad(au) ar draws yr etholaeth eich hun, bydd angen i chi adolygu eich dyraniad staff swyddfa er mwyn sicrhau bod gan y swyddfa adnoddau digonol.

1.12 Unwaith y byddwch wedi cytuno ar bwy fydd yn cynnal ba swyddogaethau'n ymarferol, bydd angen i'r tîm prosiect gyuno pwy fydd yn gyfrifol am y trefniadau sy'n gysylltiedig â recriwtio a hyfforddi ar gyfer y prosesau etholiadol gwahanol.

1.13 Mae'r meysydd allweddol ar gyfer penderfyniadau yn cynnwys:

- Penodi staff gorsaf pleidleisio a staff anfon ac agor pleidleisiau post
- Llinellau adrodd
- Trefniadau ar gyfer talu i staff

Hyfforddiant

1.14 Dylai pob aelod o staff a benodir gael hyfforddiant cyson ar y gofynion a chyfrifoldebau deddfwriaethol sy'n berthnasol i'w rôl, yn ogystal â hyfforddiant ynghylch sicrhau mynediad cyfartal gofal cwsmeriaid da, a phwysigrwydd trin data personol yn unol â deddfwriaeth diogelu data.

1.15 Fel y nodir ym [Mhennod 3, Rhan B: Cynllunio a threfnu](#), dylai cynllun hyfforddiant y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) adlewyrchu'r penderfyniadau a wnaed gan y tîm prosiect ynghylch sut y cyflwynir hyfforddiant i bob aelod o staff a fydd yn gweithio ar draws yr etholaeth. Mae'r meysydd allweddol ar gyfer penderfyniadau yn cynnwys:

- Cyfrifoldeb am gyflwyno hyfforddiant i'r staff a benodwyd
- Cydlynu'r trefniadau ar gyfer y sesiynau hyfforddi amrywiol i sicrhau bod pob aelod o staff yn cael yr un ansawdd o hyfforddiant
- Cynhyrchu deunyddiau ac adnoddau hyfforddiant

Cofrestrau

1.16 Fel Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) mewn etholaeth draws-ffiniol, bydd angen i chi gysylltu â phob un o'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn yr etholaeth i gael data o'r cofrestrau - gan gynnwys data o hysbysiadau o newid etholiad interim a therfynol.

1.17 Er nad oes gofyn cael cytundeb ysgrifenedig o dan GDPR wrth rannu data rhwng rheolwyr data, argymhellir yn gryf eich bod yn cytuno ar brotocol neu gytundeb gydag unrhyw Swyddogion Cofrestru Etholiadol eraill. Bydd hyn yn eich helpu i ddangos eich bod yn gweithredu o fewn GDPR ac, yn bwysicach, yn eich helpu i osgoi unrhyw oblygiadau atebolrwydd o un parti'n cael eu gweld fel rheolwr a'r llall yn brosesydd.

1.18 Gan ddibynnu ar ba raddau yr ydych wedi penderfynu rheoli'r etholiad(au) yn ymarferol, efallai y byddwch angen y wybodaeth hon, er enghraifft, i'ch galluogi i argraffu cardiau pleidleisio, creu cofrestrau gorsafoedd pleidleisio neu anfon pleidleisiau post.

1.19 Mae'r meysydd allweddol sydd i'w hystyried yn cynnwys:

- Trosglwyddo a derbyn data cofrestru etholiadol
- Cael gwybodaeth am etholwyr newydd cyn gynted â phosibl ar ôl cyhoeddi'r hysbysiadau o newid interim a'r hysbysiad o newid terfynol
- Derbyn y data pleidleisio absennol perthnasol (gweler hefyd [Pleidleisio absennol](#) isod)

1.20 Fel rhan o ddatblygu eich trefniadau, bydd angen i chi sefydlu p'un a all eich system feddalwedd brosesu'r data a dderbyniwyd gan yr awdurdod/ awdurdodau lleol eraill, yn enwedig os ydynt yn defnyddio system feddalwedd rheoli etholiadol wahanol.

1.21 Hyd yn oed os ydych yn penderfynu peidio ag argraffu'r cardiau pleidleisio, cynhyrchu'r cofrestrau gorsafoedd pleidleisio ac/neu anfon y pleidleisiau post eich hun, byddwch yn parhau i fod angen gwybodaeth gofrestr ystadegol i'ch galluogi i adolygu eich rhagdybiaethau cynllunio, a sicrhau eu bod yn dal i fod yn gywir. Bydd dadansoddiad o'r newidiadau i nifer yr etholwyr cyn etholiad cyffredinol diwethaf Senedd y DU yn rhoi man cychwyn da i chi ar gyfer amcangyfrif canran y cynnydd tebygol yn nifer yr etholwyr y gallwch eu disgwyl cyn yr etholiad, ond dylech hefyd gadw mewn cof yr effaith bosibl ar y nifer o geisiadau munud olaf o weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd y bydd Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn ei gynnal a chofrestru ar-lein. Bydd monitro'r diweddariadau misol i'r gofrestr sy'n arwain i fyny at gyfnod yr etholiad hefyd yn eich helpu i adolygu eich amcangyfrifon, a sicrhau bod cynlluniau yn parhau i fod yn gadarn.

1.22 Bydd gan ymgeiswyr hawl i gael y cofrestrau sy'n cynnwys yr ardal lle maent yn sefyll. Dylech benderfynu sut y bydd y ceisiadau am gopiâu o'r gofrestr etholiadol yn cael eu rheoli ar draws yr etholaeth.

1.23 Fel Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), bydd angen i chi hefyd fod yn fodlon fod y ffurflenni enwebu a gyflwynwyd gan ymgeiswyr wedi'u llofnodi'n briodol, ac mae hyn yn golygu bod â mecanwaith yn ei le ar gyfer gwirio bod y llofnodwyr wedi'u cofrestru o fewn yr etholaeth. Dylech gytuno ar sut y byddwch yn cynnal y gwiriadau hyn, h.y. a fyddwch yn cynnal y gwiriadau hyn eich hun (ac os felly, byddwch angen mynediad at ddata'r gofrestr) neu a fyddwch yn gofyn i'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol perthnasol wneud y gwiriadau hyn ar eich rhan.

Cardiau pleidleisio

1.24 Bydd angen i chi benderfynu p'un ai i gynhyrchu a dosbarthu cardiau pleidleisio i'r etholaeth gyfan, ynteu a fyddwch yn dibynnu ar y Swyddog(ion) Canlyniadau lleol a'u staff i reoli'n ymarferol y broses o anfon cardiau pleidleisio yn eu hardal(oedd) awdurdod lleol eu hunain. Bydd adnoddau a pha mor hawdd y gall yr awdurdod/ awdurdodau lleol eraill rannu data cofrestru etholiadol â chi effaith uniongyrchol ar eich penderfyniad.

1.25 Os ydych yn dibynnu ar y Swyddog(ion) Canlyniadau lleol a'u staff i reoli'n ymarferol y broses o anfon cardiau pleidleisio yn eu hardal(oedd), bydd angen i'r tîm prosiect:

- Gytuno ar gynllun a chynnwys y cerdyn pleidleisio, neu benderfynu ar fecanwaith ar gyfer gwirio bod gwybodaeth yn cael ei chyfleu yn gyson ar draws yr etholaeth a'ch bod yn fodlon ar y cynllun(iau) a ddefnyddir ar draws yr ardal(oedd) awdurdodau lleol eraill

- Gytuno ar yr amserlen ar gyfer anfon a chyflenwi cardiau pleidleisio at yr holl etholwyr ar draws yr etholaeth
- Roi mecanweithiau yn eu lle i ganiatáu i chi gadarnhau bod cardiau pleidleisio wedi cael eu hanfon fel y cytunwyd ar draws yr etholaeth

1.26 Os wnaed penderfyniad mai tîm etholiad eich awdurdod lleol fydd yn gweinyddu'r broses cardiau pleidleisio i'r cyfan o'r ardal etholaeth, bydd angen i'r tîm prosiect ystyried y canlynol:

- Amseriad y trosglwyddiad data sy'n ofynnol ar gyfer argraffu
- Sut y byddwch yn cael y data angenrheidiol ac yn sicrhau diogelwch y data
- Sut y gallwch sicrhau eich bod yn gallu darparu'r data i argraffwyr mewn fformat y gallant ei ddefnyddio, yn enwedig os yw'r data yn dod oddi wrth Swyddog Cofrestru Etholiadol gyda system feddalwedd wahanol
- Manylion cyswllt i'w hargraffu ar y cerdyn pleidleisio, fel y gall etholwyr eu ffonio os oes ganddynt ymholiadau
- Bydd hefyd angen i chi sicrhau bod unrhyw ddata personol yn cael ei ddinistrio ar yr adeg gywir, yn unol â'ch polisi cadw dogfennau.

Papurau pleidleisio

1.27 Bydd angen i chi benderfynu pwy fydd yn rheoli'n ymarferol y broses o gynhyrchu'r papur(au) pleidleisio sydd i'w defnyddio ar draws yr etholaeth.

1.28 Fel Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), mae'n rhaid i chi fod yn fodlon fod papurau pleidleisio i etholiad Senedd y DU yn cael eu cynhyrchu yn unol â rheolau'r etholiad ac nad ydynt yn cynnwys unrhyw wallau argraffu. Os gwneir penderfyniad bod papurau pleidleisio i etholiad Senedd y DU i gael eu hargraffu gan Swyddog Canlyniadau'r awdurdod lleol perthnasol, dylid cael prosesau gwirio cadarn yn eu lle, fel y nodir ym [Mhennod 5, Rhan C: Gweinyddu'r etholiad](#). Mae'r un peth yn wir os oes etholiadau eraill yn digwydd o fewn yr etholaeth, ac y gwnaed penderfyniad y byddwch yn argraffu'r papurau pleidleisio ar gyfer pob un o'r etholiadau sy'n digwydd ar draws yr etholaeth.

1.29 Dylai'r tîm prosiect hefyd gytuno ar y prosesau ar gyfer darparu'r papurau pleidleisio perthnasol i orsafoedd pleidleisio ac ar gyfer eu cynnwys mewn pecynnau pleidleisio drwy'r post. Er enghraifft, gall fod achosion lle rydych wedi penderfynu argraffu papurau pleidleisio ar gyfer y cyfan o'r etholaeth, ond mai'r Swyddog(ion) Canlyniadau lleol yn ymarferol fydd yn rheoli'r gorsafoedd pleidleisio. Yn yr achos hwnnw, bydd angen i chi gytuno ar sut y bydd y papurau pleidleisio a argraffwyd yn cael eu cyflenwi i orsafoedd pleidleisio.

1.30 Bydd angen i'r tîm prosiect hefyd gytuno ar y trefniadau a fydd yn eu lle i ddiogelu'r papurau pleidleisio unwaith y byddant wedi cael eu hargraffu a'u storio, fel y nodir ym [Mhennod 5, Rhan C: Gweinyddu'r etholiad](#).

<<http://www.electoralcommission.org.uk/i-am-a/electoral-administrator/uk-parliamentary-elections>>

Gorsafoedd pleidleisio

1.31 Fel Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), bydd angen i chi ystyried y ffordd fwyaf effeithiol o reoli gorsafoedd pleidleisio sydd y tu allan i'ch ardal awdurdod lleol, a dylai hyn gael ei wneud mewn ymgynghoriad â'r Swyddog(ion) Canlyniadau llywodraeth leol a staff etholiadau o'r ardal(oedd) awdurdodau lleol eraill

1.32 Wrth benderfynu p'un ai i reoli'r gorsafoedd pleidleisio i'r cyfan o'r etholaeth, ynteu ofyn i'r Swyddog(ion) Canlyniadau llywodraeth leol eraill reoli'r gorsafoedd pleidleisio yn eu hardal(oedd) eu hunain, bydd angen i chi ystyried manteision ac anfanteision pob dull. Er enghraifft, gall rheoli'r broses i'r cyfan o'r etholaeth o'ch awdurdod lleol eich hun eich galluogi i gadw rheolaeth ymarferol fwy uniongyrchol ar reolaeth y gorsafoedd pleidleisio, gyda goruchwyliaeth glir a llinellau atebolrwydd uniongyrchol; fodd bynnag, bydd hyn yn arwain at oblygiadau o ran adnoddau. Hefyd, yn gyffredinol bydd gan y Swyddog(ion) Canlyniadau llywodraeth leol a'u staff well gwybodaeth am unrhyw faterion sy'n effeithio ar eu hardal awdurdod lleol ac yn debygol o allu ymateb yn gyflymach (er enghraifft, os yw perchennog eiddo yn sydyn yn gwrthod gwneud ystafell ar gael ar gyfer pleidleisio, neu os yw gorsaf pleidleisio yn dod yn amhosibl ei defnyddio oherwydd llifogydd neu dân).

1.33 Mae ystyriaethau ymarferol allweddol yn cynnwys:

- Nodi pwy fydd yn gyfrifol am archebu gorsafoedd pleidleisio ac unrhyw drefniadau sy'n gysylltiedig â hyn, megis gwneud taliadau am logi'r gorsafoedd
- Gwneud trefniadau ar gyfer cyflenwi a chasglu'r blychau pleidleisio, bythau pleidleisio ac unrhyw ddeunyddiau ac offer arall i'r gorsafoedd pleidleisio
- Cytuno ar ddeunydd ysgrifennu i'r gorsafoedd pleidleisio (megis arddull y cyfrifon papurau pleidleisio a labelu ar gyfer blychau pleidleisio, a gwybodaeth amdany'n)
- Adnabod y prif gyswllt ar y diwrnod pleidleisio i ddelio ag ymholiadau o orsafoedd pleidleisio, a sut y byddant yn cyfathrebu gyda'r staff etholiadau a staff cofrestru perthnasol yn yr awdurdod/ awdurdodau lleol eraill

1.34 Hefyd bydd angen penderfynu sut y rheolir gweithgareddau'r rhifwyr mewn gorsafoedd pleidleisio er mwyn sicrhau bod dull cyson yn cael ei fabwysiadu ar draws yr etholaeth.

Pleidleisio absennol

1.35 Fel Swyddog Canlyniadau (Gweithredol), dylech drafod gyda'ch tîm prosiect pa swyddogaethau sy'n ymwneud â phleidleisio drwy'r post a phleidleisio drwy ddirprwy a wneir yn ymarferol gennych chi, a pha rai, os o gwbl, a wneir gan Swyddog(ion) Canlyniadau llywodraeth leol eraill a'u staff. Un ystyriaeth allweddol a fydd yn bwydo i mewn i'ch penderfyniad fydd p'un a all eich system feddalwedd reolaeth etholiadol brosesu'r data a dderbyniwyd gan yr awdurdod/ awdurdodau lleol eraill.

Pleidleisio drwy'r post

1.36 Bydd angen i chi benderfynu sut y byddwch yn rheoli'r prosesau pleidleisio drwy'r post yn effeithiol ar draws yr etholaeth. Er enghraifft, bydd angen i chi benderfynu a fyddwch yn rheoli'r broses anfon yn ymarferol i'r cyfan o'r etholaeth eich hun, ynteu a fyddwch yn gofyn i'r Swyddog(ion) Canlyniadau llywodraeth leol reoli'r broses anfon ar gyfer y rhan honno o'r etholaeth sy'n dod o fewn eu hardal awdurdod lleol. Bydd angen i chi hefyd benderfynu ar y trefniadau ar gyfer dilysu dynodwyr ar ddatganiadau pleidleisio drwy'r post a ddychwelwyd.

1.37 Dylai'r ystyriaethau canlynol fwydo i mewn i'ch penderfyniad:

- Pa adnoddau y byddwch eu hangen i gynnal y broses o anfon ac agor pleidleisiau post i'r cyfan o'r etholaeth
- Y gyfran o'r etholaeth sy'n cael ei chynnwys yn ardal(oedd) yr awdurdodau lleol eraill
- Unrhyw etholiadau eraill sy'n digwydd yn yr etholaeth
- Rheolaeth o'r data: yn arbennig, y systemau meddalwedd sy'n cael eu defnyddio gan bob un o'r awdurdodau lleol a p'un a/sut maent yn gallu cyfnewid y data perthnasol
- Trefniadau ar gyfer gwirio dynodwyr personol ar ddatganiadau pleidleisio drwy'r post a ddychwelwyd ar y diwrnod pleidleisio, gan gynnwys sut y gall hyn gael ei gyflenwi mewn modd amserol ar ôl cau'r bleidlais, a heb achosi unrhyw oedi i'r dilysu a'r cyfrif

1.38 Os cymerir y penderfyniad mai chi fydd yn delio â'r prosesau pleidleisio drwy'r post i'r cyfan o'r etholaeth eich hun, dylai'r tîm prosiect hefyd ystyried:

- Y trefniadau ar gyfer trosglwyddo a derbyn yn ddiogel ac yn amserol ddata'r Swyddog Cofrestru Etholiadol i'r ardal(oedd) awdurdodau lleol eraill o fewn yr etholaeth, gan gynnwys y data perthnasol ar gyfer unrhyw etholwyr newydd neu bresennol sydd wedi gwneud cais am bleidlais bost
- Pryd i gyfnewid data, gan gynnwys trefniadau ar gyfer cynnal prawf o'r broses cyn y trosglwyddiad cyntaf a drefnwyd
- Y dull ar gyfer cyfathrebu unrhyw ychwanegiadau munud olaf at y rhestr o bleidleiswyr drwy'r post. Gallai ychwanegiad hwyr gael ei achosi gan etholwr heb ei gadarnhau, sydd wedi gwneud cais i bleidleisio drwy'r

post mewn pryd ar gyfer yr etholiad, ac sy'n gwneud cais munud olaf i gofrestru'n unigol. Os ydynt yn gwneud cais i gofrestru'n unigol a bod eu cais yn cael ei benderfynu'n gadarnhaol erbyn 10pm ar y diwrnod pleidleisio, bydd ganddynt hawl i bleidlais bost.

- Y trefniadau ar gyfer cyfathrebu gwybodaeth am newidiadau i drefniadau pleidleisio absennol neu ddelio â chwestiynau am bleidleisiau post a ddychwelwyd i sicrhau bod unrhyw gamau sy'n ofynnol gan y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn cael eu gwneud o fewn yr amserlen ofynnol. Er enghraifft, o ystyried y gall pleidleisiwr post newid eu trefniadau pleidleisio absennol hyd at 11 diwrnod gwaith cyn yr etholiad, ond dim ond os nad ydynt eisoes wedi dychwelyd eu pleidlais bost, bydd angen i chi fod â modd o gyfnewid y wybodaeth angenrheidiol rhyngoch chi a phob un o'r Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn yr etholaeth.
- Y trefniadau ar gyfer rhoi pecynnau pleidleisio drwy'r post newydd yn lle papurau pleidleisio a gollwyd/a ddifethwyd
- Bydd hefyd angen i chi sicrhau bod unrhyw ddata personol yn cael ei ddinistrio ar yr adeg gywir, yn unol â'ch polisi cadw dogfennau.

1.39 Os oes etholiadau cyfunol yn digwydd yn eich etholaeth, pa ddull bynnag y byddwch yn penderfynu ei ddilyn, dylech hefyd gytuno ar y camau ymarferol a gymerwch i sicrhau bod unrhyw bleidleisiau post sy'n cael eu dychwelyd i'r orsaf pleidleisio anghywir yn cael eu trosglwyddo yn y fath fodd fel y gellir eu hystyried fel rhai sydd wedi eu 'dychwelyd yn briodol'. Er y gall pleidleisiau post gael eu dychwelyd i unrhyw orsaf pleidleisio yn yr etholaeth mewn etholiad annibynnol, mewn achos lle ceir etholiad cyfunol, dim ond i'r ardal etholiadol sy'n gyffredin i'r holl etholiadau sy'n digwydd yn yr ardal honno y gellir dychwelyd pleidleisiau post.

Pleidleisio drwy ddirprwy

1.40 Yn wahanol i bleidleisio drwy'r post, nid oes angen gwirio dynodwyr pleidleiswyr trwy ddirprwy. Fodd bynnag, mae nifer o ystyriaethau ymarferol y dylai'r tîm prosiect eu hystyried a chytuno arnynt os ydych yn rheoli'r gorsafoedd pleidleisio i'r cyfan o'r etholaeth, gan gynnwys:

- y trefniadau ar gyfer cael y rhestr o ddirprwyon cyffredin gan yr holl Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn yr etholaeth
- y dull y dylai'r holl Swyddogion Cofrestru Etholiadol ei ddefnyddio ar gyfer cyfathrebu unrhyw ychwanegiadau at y rhestr o ddirprwyon sy'n deillio o ganiatáu ceisiadau dirprwy brys

Cyhoeddi hysbysiadau

1.41 Dylai'r tîm prosiect gytuno ar y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r hysbysiadau perthnasol (megis yr hysbysiad o etholiad a datganiad o unigolion a enwebwyd) mewn 'mannau amlwg' ar draws yr etholaeth.

1.42 Bydd angen i'r tîm prosiect ystyried:

- Ble fydd yr hysbysiadau yn cael eu cyhoeddi
- Pa fformat a ddefnyddir ar gyfer yr hysbysiadau
- Pwy fydd yn gyfrifol am argraffu'r hysbysiadau
- Pwy fydd yn gyfrifol am dynnu'r hysbysiadau i lawr ar yr adeg priodol

Hysbysiad o leoliad gorsafoedd pleidleisio

1.43 Fel y nodir ym [Mhennod 5, Rhan C: Gweinyddu'r etholiad](#), y Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) sy'n gyfrifol am gyhoeddi'r hysbysiad o etholiad, a gellir cyfuno hwn â lleoliad y gorsafoedd pleidleisio.

1.44 Bydd angen i chi gysylltu â'r Swyddog(ion) Canlyniadau llywodraeth leol o fewn eich etholaeth er mwyn sicrhau bod gennych yr holl wybodaeth berthnasol i'ch galluogi i gynhyrchu'r hysbysiad o leoliad y gorsafoedd pleidleisio.

Dilysu a chyfrif

1.45 Dylai'r tîm prosiect gytuno ar y dull gweithredu sydd i'w fabwysiadu mewn perthynas â'r dilysu a'r cyfrif. Bydd yn bwysig rheoli disgwyliadau, nid yn unig rhai'r cyfryngau, ond pawb sydd â diddordeb yn y canlyniadau. Am ganllawiau ymarferol ynglŷn â rheoli'r cyfrif a'r cyfryngau, gweler ein [Pecyn cymorth dilysu a chyfrif](#).

1.46 Mae'r meysydd allweddol i'w hystyried yn cynnwys:

- Trefniadau ar gyfer cyflenwi'r blychau pleidleisio a gwaith papur o'r gorsafoedd pleidleisio i'r lleoliad dilysu a chyfrif
- Prosesau ar gyfer rheoli dilysu'r papurau pleidleisio
- Trefniadau i sicrhau diogelwch yr holl bapurau pleidleisio drwy gydol y dilysu a'r cyfrif
- Mewn etholiadau cyfunol, y trefniadau ar gyfer cludo'r papurau pleidleisio wedi'u gwirio ar gyfer yr etholiadau eraill i'r awdurdod/awdurdodau lleol perthnasol
- Bydd angen i chi sicrhau bod gennych brosesau priodol at y risgiau yn eu lle i sicrhau lefel o ddiogelwch o ran data personol yn y dilysu a'r cyfrif

Ar ôl yr etholiad

1.47 Yng Nghymru a Lloegr, fel Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) bydd angen i chi gysylltu â Swyddog Cofrestru Etholiadol yr awdurdod lleol gyda nifer uchaf yr etholwyr cofrestredig yn yr etholaeth. Hwn yw'r 'Swyddog Cofrestru Etholiadol perthnasol' y mae angen anfon yr holl ddogfennau etholiad ato.

1.48 Yn yr Alban, mae'n rhaid i chi fel Swyddog Canlyniadau gadw a storio'n ddiogel y dogfennau etholiad ar gyfer yr etholaethau yr ydych yn gyfrifol amdanynt.

1.49 Bydd hefyd angen i chi sicrhau bod unrhyw ddata personol yn cael ei ddinistrio ar yr adeg gywir, yn unol â'ch polisi cadw dogfennau.

Rhestr Wirio

	Ystyriaethau	Sylwadau
	Tîm prosiect / Swyddog Canlyniadau (Gweithredol)	
<input type="checkbox"/>	Adolygu eich cynlluniau i sicrhau eu bod yn amlinellu eich prosesau a'r camau diogelwch sydd yn eu lle, a'u bod yn rhoi sail gadarn i chi fodloni eich rhwymedigaethau diogelu data.	
<input type="checkbox"/>	Dod i gytundeb gyda'r holl Swyddogion Cofrestru Etholiadol a Swyddog(ion) Canlyniadau llywodraeth leol yr awdurdod/ awdurdodau lleol eraill ynghylch pwy fydd yn gwneud beth	
<input type="checkbox"/>	Cytuno a sefydlu mecanwaith i ddarparu sicrwydd angenrheidiol i'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) bod unrhyw waith sy'n cael ei wneud ar eu rhan yn cael ei wneud yn effeithiol ac yn gyson, gan ddarparu rhybudd cynnar os nad yw.	
<input type="checkbox"/>	Ble byddwch yn rhannu neu'n trosglwyddo data gyda Swyddogion Cofrestru Etholiadol, sicrhewch fod cytundeb yn ei le rhyngoch chi a'r person sy'n derbyn data ar gyfer trosglwyddo data a dinistrio data.	
	Cyfathrebu â'r cyfryngau ac ymwybyddiaeth y cyhoedd	

<input type="checkbox"/>	Cytuno ar y strategaeth ymwybyddiaeth y cyhoedd sydd i gael ei rhoi yn eu lle ar draws yr etholaeth	
<input type="checkbox"/>	Cytuno ar y trefniadau ar gyfer cydlynu negeseuon allweddol a datganiadau i'r wasg, gan weithio gyda thimau cyfathrebu awdurdodau lleol fel y bo'n briodol	
<input type="checkbox"/>	Cytuno pwy fydd yn gyfrifol am gysylltu â'r cyfryngau a'r wasg yn y cyfnod hyd at yr etholiad, ar y diwrnod pleidleisio ac yn ystod y cyfrif	
	Staffio	
<input type="checkbox"/>	Adolygu'r dyraniad staffio, gan sicrhau ei fod yn parhau'n briodol	
<input type="checkbox"/>	Cytuno ar bwy fydd yn recriwtio a hyfforddi gorsaf pleidleisio a staff agor pleidleisiau post	
<input type="checkbox"/>	Rhoi llinellau adrodd clir yn eu lle	
<input type="checkbox"/>	Cytuno ar drefniadau ar gyfer talu i staff	
	Hyfforddiant	
<input type="checkbox"/>	Penderfynu pwy fydd yn darparu hyfforddiant i'r staff a benodwyd	
<input type="checkbox"/>	Cytuno ar bwy fydd yn cydlynu'r trefniadau ar gyfer y sesiynau hyfforddi amrywiol	
<input type="checkbox"/>	Penderfynu pwy fydd yn cynhyrchu'r deunydd ac adnoddau hyfforddiant	
	Cofrestrau	

<input type="checkbox"/>	Sefydlu p'un a all eich system feddalwedd brosesu'r data a dderbyniwyd gan yr awdurdod/awdurdodau lleol eraill	
<input type="checkbox"/>	Os ydych angen gwybodaeth am etholwyr newydd i ddiben argraffu cardiau pleidleisio, cofrestrau gorsafoedd pleidleisio ayb, rhoi trefniadau yn eu lle i gael y wybodaeth am etholwyr newydd cyn gynted â phosibl ar ôl cyhoeddi'r hysbysiadau etholiad o newid interim a'r hysbysiad etholiad o newid terfynol	
<input type="checkbox"/>	Hyd yn oed os nad ydych angen y cofrestrau ar gyfer rheolaeth ymarferol y pleidleisio, trefnu i gael y wybodaeth ystadegol o leiaf, er mwyn sicrhau bod eich cynlluniau yn parhau i fod yn gadarn	
<input type="checkbox"/>	Cytuno ar drefniadau ar gyfer sut y bydd ceisiadau gan ymgeiswyr am gopïau o'r gofrestr etholiadol yn cael eu trin	
<input type="checkbox"/>	Cytuno ar y broses o wirio llofnodwyr	
	Cardiau pleidleisio	
<input type="checkbox"/>	Penderfynu pwy fydd yn rheoli anfon ac argraffu cardiau pleidleisio yn ymarferol	
	Os yw argraffu ac anfon yn mynd i gael ei reoli'n ymarferol gan Swyddog(ion) Canlyniadau lleol a'u staff yn eu hardal(oedd):	

<input type="checkbox"/>	Cytuno ar gynllun a chynnwys y cerdyn pleidleisio, neu benderfynu ar fecanwaith ar gyfer gwirio bod gwybodaeth yn cael ei chyfleu'n gyson ar draws yr etholaeth a'ch bod yn fodlon ar y cynlluniau a ddefnyddir ar draws ardal(oedd) yr awdurdodau lleol eraill	
<input type="checkbox"/>	Cytuno ar yr amserlen pryd yr ydych yn disgwyl i gardiau pleidleisio gael eu hanfon a'u cyflenwi i'r holl etholwyr ar draws yr etholaeth	
<input type="checkbox"/>	Rhoi mecanweithiau yn eu lle i ganiatáu i chi gadarnhau eu bod wedi cael eu hanfon fel y cytunwyd	
	Os ydych yn gweinyddu'r argraffu a dosbarthu cardiau pleidleisio i'r cyfan o'r etholaeth:	
<input type="checkbox"/>	Penderfynu ar amseriad y trosglwyddo data sydd ei angen i argraffu cardiau pleidleisio	
<input type="checkbox"/>	Cytuno ar sut y byddwch yn cael y data angenrheidiol ac yn sicrhau diogelwch y data	
<input type="checkbox"/>	Sefydlu mecanwaith ar gyfer sicrhau eich bod yn gallu darparu'r data i argraffwyr mewn fformat y gallant ei ddefnyddio, yn enwedig os yw'r data yn dod oddi wrth Swyddog Cofrestru Etholiadol ar system feddalwedd wahanol	
<input type="checkbox"/>	Cytuno ar y manylion cyswllt i'w hargraffu ar y cerdyn pleidleisio	
	Papurau pleidleisio	
<input type="checkbox"/>	Cytuno ar bwy fydd yn gyfrifol am reoli'n ymarferol y broses o gynhyrchu'r papur(au) pleidleisio sydd i'w defnyddio ar draws yr etholaeth	

<input type="checkbox"/>	Sicrhau bod proses wirio gadarn yn ei lle	
<input type="checkbox"/>	Cytuno ar y prosesau ar gyfer darparu'r papurau pleidleisio perthnasol i orsafoedd pleidleisio, ac ar gyfer eu cynnwys mewn pecynnau pleidlais bost	
<input type="checkbox"/>	Rhoi trefniadau yn eu lle ar gyfer diogelwch y papurau pleidleisio unwaith y maent wedi cael eu hargraffu a'u storio	
	Deunyddiau ac offer gorsaf bleidleisio	
<input type="checkbox"/>	Nodi pwy fydd yn gyfrifol am archebu gorsafoedd pleidleisio ac unrhyw drefniadau sy'n gysylltiedig â hyn, megis gwneud taliadau am logi'r gorsafoedd	
<input type="checkbox"/>	Cytuno ar drefniadau ar gyfer danfon a chasglu papurau pleidleisio, blychau pleidleisio, bythau, offer a hysbysiadau gorsafoedd pleidleisio eraill	
<input type="checkbox"/>	Cytuno ar ddeunydd ysgrifennu gorsaf bleidleisio	
<input type="checkbox"/>	Cytuno pwy fydd y prif gyswllt ar y diwrnod pleidleisio i ddelio ag ymholiadau o orsafoedd pleidleisio a sut y byddant yn cyfathrebu gyda'r staff etholiad a chofrestru perthnasol yn yr awdurdod/ awdurdodau lleol eraill	
<input type="checkbox"/>	Cytuno ar y trefniadau ynghylch rhifwyr ar draws yr etholaeth	

	Pleidleisio absennol	
	Pleidleisio drwy'r post	
<input type="checkbox"/>	Cytuno ar bwy fydd yn ymarferol yn rheoli danfon pleidleisiau post ar draws yr awdurdod lleol a'r trefniadau ar gyfer gwirio pleidleisiau post a ddychwelwyd	
	Os ydych yn rheoli'r prosesau pleidleisio drwy'r post ar gyfer yr etholaeth gyfan:	
<input type="checkbox"/>	Cytuno ar y trefniadau ar gyfer trosglwyddo a derbyn data yn ddiogel ac amserol, gan gynnwys data perthnasol ar gyfer unrhyw etholwyr newydd neu bresennol sydd wedi gwneud cais am bleidlais bost	
<input type="checkbox"/>	Penderfynu pryd i gyfnewid data, ac ar y trefniadau ar gyfer rhoi prawf ar gyfnewid	
<input type="checkbox"/>	Cytuno ar y dull ar gyfer cyfathrebu ychwanegiadau munud olaf at y rhestr o bleidleiswyr post	
<input type="checkbox"/>	Penderfynu ar y trefniadau ar gyfer cyfleu gwybodaeth am newidiadau i drefniadau pleidleisio absennol, neu ar gyfer ymdrin â chwestiynau am bleidleisiau post a ddychwelwyd	
<input type="checkbox"/>	Cytuno ar drefniadau ar gyfer anfon papurau pleidleisio newydd yn lle papurau pleidleisio a gollwyd/ a ddifethwyd	
<input type="checkbox"/>	Mewn etholiadau cyfunol, cytuno ar y camau i'w cymryd i sicrhau y gall pleidleisiau post a gyflwynir yn yr orsaf bleidleisio anghywir gael eu hystyried fel rhai sydd wedi eu 'dychwelyd yn briodol'.	

	Pleidleisio drwy ddirprwy	
<input type="checkbox"/>	Os ydych yn rheoli gorsafocedd pleidleisio i'r cyfan o'r etholaeth, penderfynu ar y trefniadau ar gyfer cael y rhestr o ddirprwyon cyffredin gan bob Swyddog Cofrestru Etholiadol	
<input type="checkbox"/>	Os ydych yn rheoli gorsafocedd pleidleisio i'r cyfan o'r etholaeth, cytuno â phob Swyddog Cofrestru Etholiadol ynglŷn â dull o gyfathrebu unrhyw ychwanegiadau at y rhestr o ddirprwyon sy'n deillio o ganiatáu ceisiadau dirprwy brys	
	Cyhoeddi hysbysiadau	
<input type="checkbox"/>	Cytuno lle bydd hysbysiadau yn cael eu cyhoeddi	
<input type="checkbox"/>	Cytuno ar fformat yr hysbysiadau	
<input type="checkbox"/>	Cytuno pwy fydd yn gyfrifol am argraffu'r hysbysiadau	
<input type="checkbox"/>	Sicrhau fod gennych yr holl wybodaeth a lleoliad y gorsafocedd pleidleisio perthnasol i alluogi cynhyrchu hysbysiad o leoliadau gorsafocedd pleidleisio	
<input type="checkbox"/>	Gwneud trefniadau ar gyfer cyhoeddi hysbysiadau statudol yn gydlynol o fewn yr etholaeth ac ar bob gwefan awdurdod lleol	
<input type="checkbox"/>	Cytuno pwy fydd yn gyfrifol am dynnu'r hysbysiadau ar yr adeg priodol.	

	Dilysu a chyfrif	
<input type="checkbox"/>	Cytuno ar y trefniadau ar gyfer danfon blychau pleidleisio a gwaith papur o'r orsaf bleidleisio i'r lleoliad dilysu a chyfrif	
<input type="checkbox"/>	Cytuno ar y prosesau ar gyfer rheoli dilysu'r papurau pleidleisio	
<input type="checkbox"/>	Gwneud trefniadau i sicrhau diogelwch yr holl bapurau pleidleisio drwy gydol y dilysu a'r cyfrif	
<input type="checkbox"/>	Mewn etholiadau cyfunol, gwneud trefniadau ar gyfer cludo papurau pleidleisio wedi'u gwirio ar gyfer yr etholiadau eraill i'r awdurdod/ awdurdodau lleol perthnasol	